

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn gwasanaeth cyhoeddus. Fe'i lluniwyd i sicrhau bod y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau antur yn gweithio'n ddiogel ac yn adeiladol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Fe'i lluniwyd hefyd i sicrhau bod pobl yn cyflawni'r gweithgareddau hyn yn unol â'r canllawiau a'r codau ymarfer perthnasol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dilyn gweithdrefnau sefydliadol bob amser
2. cynnal eich diogelwch personol eich hun a diogelwch pobl eraill bob amser
3. paratoi dillad a chyfarpar yn gywir ar gyfer gweithgareddau antur
4. defnyddio cyfarpar yn unol â'r cyfarwyddyd a gafwyd
5. cydweithio ag aelodau'r tîm i gyflawni amcanion
6. cymryd rhan mewn gweithgareddau antur sy'n cynnwys tasg mewn modd adeiladol
7. cyflawni eich amcanion personol wrth gyflawni'r dasg

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau antur
2. eich nodau a'ch amcanion personol
3. amcanion y tîm a'ch rôl chithau yn y tîm
4. yr ystod o weithgareddau antur a'r gofynion diogelwch, y cyfarpar a'r codau ymarfer sy'n berthnasol iddynt
5. y cyfarwyddiadau ar gyfer paratoi a defnyddio'r cyfarpar

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Dyma'r gwahanol amodau sy'n effeithio ar sut byddwch chi'n cymhwyso eich gwybodaeth, ac y mae rhaid i chi ddangos cymhwysedd ynddynt:

1 Cyfranogi:

1.1 fel unigolyn

1.2 ar y cyd

Cymryd rhan mewn gweithgareddau antur

Datblygwyd gan	Skills for Justice
Dyddiad cymeradwyo	30 Tach 2014
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Tach 2019
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau Llywodraeth
RCU gwreiddiol	SFJ 6.13.7
Galwedigaethau perthnasol	Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Graddio Rhyfela'r Llynges Frenhinol, Dyletswyddau Cyffredinol y Môr-filwyr Brenhinol, Troedfilwr Brwydro'r Fyddin, Gynnwr Catrawd yr Awyrlu Brenhinol
Cyfres/Set	Lluoedd Arfog, Gwasanaethau Cyhoeddus
Geiriau Allweddol	gweithgaredd antur; tasg anturus; dillad; cyfarpar; diogelwch personol; diogelwch; darparu gweithredol; gweithgareddau awyr agored; gweithgarwch awyr agored